

# Ysgol Sefydledig Caergeiliog



## Polisi Iaith Gymraeg

### Rhagymadrodd

Mae Ysgol Sefydledig Caergeiliog yn ysgol ddwyieithog ac o'r herwydd yn cynnig cyfleoedd niferus i'n disgyblion i weld a phrofi'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol. Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd gweithredol yr ysgol.

Yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog anelwn i annog brwdfrydedd ac ymwybyddiaeth o'r cefndir diwylliannol cyfoethog sydd gan Gymru. Drwy wneud hynny, y gobaith yw y bydd y disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a pharoddrwydd i ddysgu, fel eu bod yn gadael yr ysgol gyda sylfaen gadarn o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'r Gymraeg i adeiladu arni.

Gobeithir hefyd y bydd y disgyblion wedi ennill dealltwriaeth o Gymru trwy'r 'Cwricwlwm Cymreig'. Anelwn i ddarparu cyfleoedd cyfartal yn y Gymraeg i BOB disgybl, waeth beth fo'u cenedligrwydd, rhyw neu allu academaidd. Mae ein Cwricwlwm Cymreig yn helpu'r disgyblion i ddeall a dathlu y cyfle unigryw o allu byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain, i adnabod eu hymdeimlad eu hunain o Gymreictod ac i geisio'r ymdeimlad uwch o berthyn i gymuned leol a gwlad. Mae hefyd yn helpu i feithrin dealltwriaeth disgyblion o Gymru ryngwladol sy'n ceisio hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang ac arddangos consyrn am ddatblygiad cynaliadwy.

### Nodau ac Amcanion

- Creu naws Gymreig o fewn yr ysgol drwy roi statws uchel i'r iaith ac annog defnydd achlysurol o'r Gymraeg yn nhrefniadau ac arferion dydd i ddydd.
- Datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'r Gymraeg yn unol â Chwricwlwm i Gymru 2022.
- Datblygu sgiliau llafar yn y Gymraeg – trwy wrando ar ystod o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys ymwelwyr, athrawon a staff nad ydynt yn addysgu, rhaglenni teledu, cynyrchiadau llwyfan yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol ac ati.
- Datblygu dealltwriaeth ac ymateb yn ddealladwy i Gymraeg llafar, gan annog defnydd o ynganu a thonyddiaeth gywir cymaint â phosibl.
- Darparu cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddatblygu sgiliau darllen Cymraeg, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddarllen a sut maent yn ymateb i destunau a ddarllenir. Dylid rhoi mynediad i ystod

eang o ddeunydd darllen i ddisgyblion yn ogystal â chael eu hannog i ddefnyddio eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd fel deunydd darllen.

- Datblygu sgiliau ysgrifennu trwy gael cyfleoedd i ysgrifennu'n ddealladwy mewn amrywiaeth o ffyrdd a genres – er mwyn dangos ystyr, dychymyg, gwybodaeth a theimladau/barn bersonol.
- Darparu cyfleoedd i'r plant hynny sy'n dymuno ehangu eu sgiliau llafar a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg. Mae natur ddwyieithog Ysgol Sefydledig Caergeiliog yn cyfoethogi hyn wrth i ddisgyblion fod yn rhan wasanaethau dwyieithog, amser chwarae ar y cyd gyda dosbarthiadau eraill a gweithgareddau cymdeithasol. Cyfoethogir hyn ymhellach gan y ddarpariaeth o glybiau, ar ôl oriau ysgol, sy'n ddwyieithog. Anogir disgyblion i gymryd rhan mewn cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd.

## **Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen**

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dysgu defnyddio a chyfathrebu yn Gymraeg hyd eithaf eu gallu. Mae disgyblion yn gwrando ar y Gymraeg, ei siarad ac yna ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan ddefnyddio ystod o batrymau. Cânt eu hannog i gyfathrebu eu hanghenion yn Gymraeg a chânt eu hamlygu fwyfwy i'r Gymraeg. Datblygir medrau trwy gyfathrebu mewn ystod o weithgareddau pleserus, ymarferol wedi'u cynllunio gan ddefnyddio ystod o symbyliadau sy'n adeiladu ar ac yn cynyddu gwybodaeth a phrofiadau blaenorol disgyblion, mewn amgylcheddau dysgu diogel ac ysgogol dan do ac yn yr awyr agored. Defnyddir profiadau llafar y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau darllen ac fe'u hanogir i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen Cymraeg. Gwrandawant ar ystod o symbyliadau, gan gynnwys deunydd clyweled a meddalwedd rhyngweithiol TGCh yn y Gymraeg. Rhoddir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith yn cefnogi datblygiad gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.

Mae pob dosbarth Cyfnod Sylfaen yn cael sesiwn Gymraeg yn ddyddiol sy'n canolbwyntio ar siarad a gwrando dan arweiniad y disgyblion e.e. Sesiynau 'Helpwr Heddiw'. Yn ystod y sesiynau hyn mae disgyblion yn ymarfer medrau iaith a phatrymau sy'n gysylltiedig â'u dysgu cyfredol.

## **Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2**

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn y Cyfnod Sylfaen. Cyflawnir y cynnydd hwn trwy raglen integredig o lafaredd, darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir y dysgwyr â phrofiadau a chyfleoedd sy'n cydberthyn i ofynion adrannau Sgiliau ac Ystod y rhaglenni astudio.

Anogir dysgwyr i siarad yn hyderus, gan weithio fel unigolion ac fel aelodau o grŵp trwy ddefnyddio ystod o eirfa, ymadroddion, patrymau, brawddegau a chwestiynau. Mae'r profiadau a gyflwynir iddynt yn cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Datblygant fel gwrandawyr gweithredol ac ymatebol, a phrofant ystod eang o destunau, gan gynnwys deunyddiau dilys, wrth iddynt ddatblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac effeithiol.

Ysgrifennant mewn ymateb i ystod o symbyliadau gyda dealltwriaeth gynyddol o'r angen i siarad ac ysgrifennu mewn modd sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa. Gweithiant gyda chywirdeb cynyddol, yn fyfyrion ac yn hunan arfarnol mewn perthynas â'u cyflawniadau eu hunain a chyflawniadau eraill.

## **Y Siarter Iaith**

Mae'r Siarter Iaith yn darparu fframwaith clir i'r ysgol ac fe'i defnyddir i hyrwyddo ethos Gymreig gryf a defnydd achlysurol o Gymraeg yn y dosbarth a thu hwnt. Mae'r Siarter Iaith yn annog cyfranogiad gan bob aelod o weithlu'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol, y disgyblion a'u rhieni, llywodraethwyr yr ysgol a'r gymuned ehangach oll yn cael eu hannog i gymryd perchnogaeth lawn ohono. Mae'r Pwyllgor Cymraeg yn allweddol wrth arwain a gyrru'r Siarter Iaith ymlaen.

Corff o fyfyrwyr yw'r Pwyllgor Cymraeg gyda chynrychiolwyr o bob dosbarth trwy'r ysgol a'u tasg yw monitro a chodi safonau yn y Gymraeg yn yr Ysgol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac yn cyflawni'r canlynol yn ogystal ag unrhyw ddyletswyddau eraill a allai godi o bryd i'w gilydd:

- Sicrhau lle gweledol i'r Gymraeg yn y dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol e.e. arwyddion, arddangosfeydd, cylchlythyrau a gwefan yr ysgol, cynnal teithiau dysgu ac adrodd yn ôl i athrawon.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle clywadwy ym mhob maes o fywyd yr ysgol e.e. ar y buarth, arferion y dosbarth, gwasanaethau ysgol, cyngherddau, gweithgareddau awyr agored, neuadd ginio, arddangosfeydd, gwefan yr ysgol ac ymweliadau ysgol, a gwobrwyo disgyblion yn briodol.
- Gwobrwyo'r defnydd o Gymraeg achlysurol tu fewn a thu allan i'r dosbarth gyda chanmoliaeth a sticeri.
- Hysbysu disgyblion ac athrawon, yn y gwasanaethau boreol, o'r patrwm iaith wythnosol

## **Cynllunio Gwersi**

- Mae'r Gymraeg yn bwnc sy'n addas ar gyfer cysylltiadau trawsgwricwlaidd, megis Hanes (wrth ddysgu am arferion, traddodiadau, pobl a lleoedd lleol), Cerddoriaeth (wrth ddysgu caneuon Cymraeg), Saesneg (wrth ddarllen Chwedlau Cymru, Chwedlau Gwerin a Cherddi ac wrth ddefnyddio Llyfrau Darllen sydd wedi eu lleoli yng Nghymru) a TGCh. Mae'r Cwricwlwm Cymreig a Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ymdrin â hyn yn fanylach.
- Amlygir cyfleoedd i gynnwys sgiliau meddwl a sgiliau TGCh o fewn gwersi Cymraeg i athrawon dosbarth yn y Cynlluniau Pwnc. Yr athrawon dosbarth sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyfleoedd o'r fath yn cael eu

cyflwyno o fewn gwersi Cymraeg eu dosbarth. Dylid amlygu'r sgiliau hyn yng nghynlluniau athrawon dosbarth.

- Mae dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.
- Mae addysgu'r Gymraeg yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ein disgyblion drwy'r ffordd y disgwyliwn iddynt gydweithio â'i gilydd mewn gwersi. Rydyn ni'n grwpio a pharu disgyblion fel eu bod nhw'n cydweithio, ac rydyn ni'n rhoi'r cyfle iddyn nhw drafod eu syniadau a'u canlyniadau trwy gyfrwng Asesu ar gyfer Dysgu.
- Mae dysgu'r Gymraeg yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol dysgwyr trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o rôl a chyfraniad gwahanol ieithoedd lleiafrifol a byd-eang o fewn cymdeithas. Trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddau ddiwylliant, gallant werthfawrogi diwylliannau eraill yn well a bod yn gydymdeimladol â hwy. Cydweithiant a pharchant rôl eraill.
- **Cysylltiadau â'r Cynllun Gwella Ysgol** Bydd darpariaeth y Gymraeg a dwyieithrwydd yn cael eu hadolygu yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol.

## **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rydym yn addysgu Cymraeg i bob disgybl, beth bynnag fo eu gallu neu anghenion unigol. Rydym yn cyflawni hyn trwy gynllunio i ddiwallu anghenion pob disgybl, boed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn fwy galluog, ag anabledau, o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol, grwpiau ethnig gwahanol neu gefndiroedd ieithyddol amrywiol.

Rydym yn cwrdd ag anghenion pob disgybl trwy:

- Ddarparu adnoddau sy'n adlewyrchu amrywiaeth.
- Ddefnyddio ystod o strategaethau addysgu.
- Wahaniaethu tasgau ac adnoddau.
- Ddarparu gwahanol lefelau o gefnogaeth (athro, ELSA (Cynorthwydd Cymorth Emosiynol a Llythrennedd) neu blentyn arall).
- Ystyried y targedau a osodwyd yng Nghynlluniau Datblygu Unigol (CDU) disgyblion lle bo'n berthnasol.
- Gynllunio ar gyfer disgyblion mwy galluog a thalentog.
- Osod tasgau cyffredin sy'n benagored ac/neu â amrywiaeth o ymatebion a chanlyniadau gwahaniaethol.

- Roi cyfleoedd i ddisgyblion ddod yn ddysgwyr annibynnol a chynyddu eu hunan-barch.
- Grwpio disgyblion, os a phan fo'n briodol, yn ôl gallu yn y dosbarth a gosod gwahanol dasgau ar gyfer pob grŵp gallu.
- Roi her ddigonol i ddisgyblion sydd eisoes yn meddu ar wybodaeth o'r Gymraeg.
- **Adnoddau** Gellir lleoli nifer o adnoddau ym mhob dosbarth drwy'r Ysgol. Mae arddangosfeydd ystafell ddosbarth ac ardal a rennir yn cynnwys geirfa neu frawddegau Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r arddangosfeydd mewn ardaloedd a rennir yn ddwyieithog.
- **Cefnogaeth Rhieni a Chysylltiadau gyda'r Gymuned** Byddwn yn ceisio hysbysu holl randdeiliaid ein hysgol am fanteision y Gymraeg:
  - Rydym yn croesawu ac yn gwahodd rhieni ac ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg i gefnogi addysgu'r Gymraeg a datblygiad Dwyieithrwydd yn yr ysgol.
  - Gwahoddir rhieni i weithgareddau yn yr ysgol lle mae disgyblion yn perfformio ac yn defnyddio'r Gymraeg e.e. nosweithiau adloniant, cyngherddau, arddangosfeydd, gwasanaethau.
  - Ein nod yw darparu cyfleoedd ar gyfer ymweliadau â sefydliadau a digwyddiadau lleol.
  - Gwahoddwn grwpiau drama a theatr i berfformio e.e. Mewn Cymeriad ( In Character)
  - Datblygu cysylltiadau â sefydliadau allanol e.e. Cylchgrawn Wcw & Cip, yr Urdd.

## Asesu, Cofnodi a Chyflwyno Adroddiadau

Mae defnyddio methodoleg Asesu ar gyfer Dysgu yn caniatáu asesiad parhaus o Lafaredd, Darllen ac Ysgrifennu. Asesir gwaith disgyblion ym mhob dosbarth ac mae athrawon yn gwneud asesiadau tymor byr a ddefnyddir i helpu addasu eu cynlluniau dyddiol. Mae'r asesiadau tymor byr hyn yn cyd-fynd yn agos â ffocws y wers ac yn cael eu cynnwys yn ein gwerthusiadau gwersi.

Mae athrawon yn defnyddio INCERTS i olrhain a gwerthuso dysgu ac i fesur cynnydd. Bydd disgyblion yn cael eu hasesu trwy ddefnyddio offer asesu y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Mae'r holl athrawon yn adrodd i rieni ar gynnydd eu plant mewn Cyfarfodydd Rhieni tymhorol ac yn flynyddol mewn Adroddiadau Ysgol.

Cwblheir asesiadau personol (NFER) ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae'r rhieni yn derbyn canlyniadau'r asesiadau yma.

## **Mae'r ysgol yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg'.**

*"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio ni fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hon yn sicr yn uchelgais heriol, ond yn her y credwn sy'n werth chweil ac yn angenrheidiol os ydym am sicrhau bywiogrwydd y Gymraeg. iaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."*

**Diweddarwyd y polisi 23.05.2022**